Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Cymru Greadigol

Penodi Cadeirydd Anweithredol o'r Bwrdd

Dyddiad cau: 4pm, 14 Gorffennaf 2025

Cynnwys

	Tudalen:
Gwneud Cais	**3**
Atodiad A: Rôl y Cadeirydd	**5**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cymru Greadigol	**8**
Atodiad C: Y broses ddethol	

Gwneud Cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn Gadeirydd Bwrdd Cymru Greadigol.

Rôl y Cadeirydd yw rhoi arweiniad i'r Bwrdd, gan sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried gofynion rheoli statudol ac ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Yn gyffredinol, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru gydag o leiaf dau yn ardal Caerdydd.
Ymrwymiad amser:	Tua diwrnod y mis. Cynhelir cyfarfodydd o'r bwrdd bob dau fis.
Hyd y penodiad:	Bydd y penodiad cychwynnol yn para 3 blynedd.
Tâl:	**Cadeirydd** - £256 y dydd ynghyd â threuliau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

Mae'r Atodiadau ynghlwm yn rhoi manylion rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cymru Greadigol a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i dudalen swyddi gwag Llywodraeth Cymru.
https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-509f77e961d6/candidate/jobboard/vacancy/6/adv/

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol, drwy'ch cyfrif cofrestredig ar-lein.
https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-4ac5797242e0/candidate/register

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf sydd i'w gweld ym manyleb y person. Eich dewis chi yw sut i gyflwyno'r wybodaeth. Serch hynny, dylech roi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, a'r rhan y gwnaethoch ei chwarae wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd o fantais i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i bob maen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.
Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na 2 (dwy) dudalen. Efallai y caiff eich cais ei wrthod os ewch dros y terfyn hwn.

CV
Gwnewch yn siwr bod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol sydd gennych ar hyn o bryd neu a fu gennych yn y gorffennol.

Amserlen fras
Dyddiad cau 14 Gorffennaf 2025
Llunio rhestr fer: w/c 28 Gorffennaf 2025
Cyfweliadau w/c 1 Medi 2025

Datganiad Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.
Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.
Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Hyderus o ran Anabledd
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd".

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai 'hanfodol'.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfaoedd. Os hoffech wneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, dylech roi gwybod i Stephanie Woodward drwy e-bost stephanie.woodward@gov.wales.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac am drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â Stephanie Woodward cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltiadau
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddewis, cysylltwch â:
Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: publicappointments@gov.wales

Cymru Greadigol

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cadeirydd Cymru Greadigol, cysylltwch â:
Stephanie Woodward
Ffôn: 07792 618831
E-bost: stephanie.woodward@gov.wales

Os oes arnoch angen rhagor o gymorth i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Cadeirydd i fwrdd Cymru Greadigol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd

Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arwain penodol mewn perthynas â'r canlynol:

- sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli statudol ac ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- hyrwyddo'r defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb;
- adrodd i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol.

Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod yn llawn beth yw telerau eu penodiad a'u dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau ei fod, ynghyd ag aelodau eraill o'r bwrdd, yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion cyrff yn y sector cyhoeddus o ran rheolaeth ariannol ac adrodd ac ar y gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd o sgiliau sy'n briodol i allu rhedeg busnes Asiantaeth Fewnol Cymru Greadigol;
- asesu perfformiad aelodau unigol y Bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r tîm partneriaeth.

Manyleb y Person

Rydym am gael pobl a fydd yn gallu cynnig persbectif gwahanol a fydd yn ffynhonnell syniadau ffres, ac a fydd yn ategu sgiliau aelodau eraill y bwrdd. Bydd gennym ddiddordeb clywed hefyd sut y mae'r ymgeiswyr yn meddwl y gallai'r profiad o fod yn aelod anweithredol fod o fudd iddynt. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir a phrofiad, gan gynnwys y rhai â chefndir yn y sector preifat.

Rydym yn chwilio am aelodau bwrdd gyda'r sgiliau a'r rhinweddau canlynol:

- sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a gwrando ar lefel uchel;
- y gallu i gynnig her adeiladol;
- sgiliau dylanwadu a pherswadio da;
- y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm;
- y gallu i feddwl yn strategol;
- gallu dadansoddi cadarn;
- y gallu i gynnig atebion creadigol wrth ddatrys problemau cymhleth;
- y gallu i weithio ar sail didueddrwydd gwleidyddol llym.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Y Meini Prawf Hanfodol

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu darparu tystiolaeth eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- profiad eang o'r diwydiannau creadigol masnachol yng Nghymru;
- gwybodaeth fanwl am y problemau sy'n wynebu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a syniadau ar gyfer datblygu'r sector; a
- deall nodweddion datblygu economaidd y llywodraeth / sector cyhoeddus.
- profiad ym maes hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod amrywiaeth o brofiad a dealltwriaeth ar y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen sylweddol o newid i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Rydym felly yn chwilio am unigolion sydd wedi ymrwymo'n llawn, yn frwdfrydig ac wedi'u hysgogi a all arwain Cymru Greadigol drwy'r heriau sy'n wynebu'r sector, ond hefyd i wneud y mwyaf o gyfleodd newydd, er enghraifft y rhai hynny sy'n cael eu creu drwy dechnoleg newydd a phlatfformau digidol. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am bobl sy'n cydnabod pwysigrwydd y cyfleoedd hyn ac sy'n sylweddoli sut i ddefnyddio eu potensial yn llawn.

Y Gymraeg

Er nad yw'r Bwrdd yn gwasanaethu'r cyhoedd, mae angen sgiliau yn y Gymraeg ar y Bwrdd i adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r sector diwydiannau creadigol. Rydym yn credu y dylai o leiaf un swydd nodi bod y Gymraeg yn hanfodol, ond yn ddelfrydol dylai gael dau aelod arall sy'n meddu ar rai sgiliau yn y Gymraeg (h.y. y Gymraeg yn ddymunol). Gall y swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol a'r Gymraeg yn ddymunol fod yn **swyddi unrhyw aelod**.

Pwy sy'n gymwys
Dylai unrhyw feini prawf penodol sy'n golygu nad yw unigolyn yn gymwys i fod yn aelod o fwrdd y Corff gael eu nodi yma. Gallai hyn gynnwys meini prawf penodol sy'n golygu bod person yn anghymwys neu sefyllfaoedd lle mae Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 neu orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol.
Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o (enw'r Corff) yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.
Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

Gwrthdaro Buddiannau
Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd/Aelod o Gymru Greadigol, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl gyda Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd yn ofynnol ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Tîm Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn ystod y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hynny.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos eich bod yn arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.
Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus (gov.uk)

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Cymru Greadigol

Mae'r diwydiant creadigol yn rhan hanfodol o economi Cymru, gan greu swyddi a chefnogi buddsoddiad ledled Cymru. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth gyfrannu at ein hunaniaeth ddiwylliannol, ein tirwedd gymdeithasol ac at frand cenedlaethol cryf sy'n helpu i hyrwyddo Cymru a'i thalent i'r byd yn ogystal â chynaliadwyedd a thwf parhaus y Gymraeg, a hyrwyddo ein huchelgeisiau fel y nodir yn *Cymraeg 2050*.

Ers ei sefydlu yn 2020, lansiwyd Cymru Greadigol fel asiantaeth fewnol i Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ers hynny, ymrwymwyd bron i ddwy flynedd yn gyfan gwbl i ymateb i COVID-19 a chefnogi ein diwydiannau creadigol trwy'r argyfwng digynsail hwnnw. Yna dilynwyd y pandemig yn syth gan yr argyfwng costau ynni a byw, a oedd wedi effeithio'n sylweddol ar y sector. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae Cymru Greadigol wedi parhau i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i'r sectorau sgrin, digidol, gemau, cerddoriaeth a chyhoeddi, ac mae'n gwneud cynnydd cadarnhaol ym mhob maes.

Mae Cymru Greadigol yn parhau i gydweithio â'r sector i ymateb i'r heriau parhaus a sicrhau y gall y sector gadw safle Cymru fel lle ar gyfer creadigrwydd, troi dychymyg yn ddiwydiant a chyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer twf.

Uchelgais Cymru Greadigol

> ***Ein huchelgais yw sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau i greadigrwydd ffynnu trwy sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar y llwyddiant presennol a datblygu talent a sgiliau newydd.***
>
> **Themâu blaenoriaeth (fel y nodwyd yn 2020)**

1. **Canolbwyntio ar Dwf** – parhau i ysgogi twf y sector creadigol yng Nghymru gyda ffocws wedi'i dargedu ar y rhanbarthau a'r sector.
2. **Cefnogi Sgiliau** - i sicrhau ein bod yn datblygu'r sgiliau cywir ar draws y sector i gefnogi twf parhaus a gweithio'n agos gyda'r diwydiant.
3. **Amrywiaeth i bawb** - hyrwyddo sector amrywiol sy'n darparu cyfleoedd a chydraddoldeb canlyniadau i bawb ac mewn cydweithrediad â diwydiant, codi safonau a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector.
4. **Cymorth Sector Symlach** – parhau i ymateb i anghenion newidiol y sector drwy ddatblygu cynlluniau cyllido i dargedu cefnogaeth i'r diwydiant creadigol a sicrhau y gallwn ymateb ar y cyflymder y mae'r sector yn symud.
5. **Adeiladu ar y Brand** – parhau i ddatblygu'r brand wrth farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd a'r cyfraniad y mae'r sector creadigol yn ei wneud i'n henw da a'n llwyddiant byd-eang.

Mae'r themâu hyn i gyd yn gydddibynnol ac mae'r dull integredig hwn yn hanfodol er mwyn galluogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i barhau i ffynnu.

Mae **Cynllun Busnes Cymru Greadigol ar gyfer 2025/26** yn canolbwyntio ar sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ymhellach ym mhob gweithgaredd, yn enwedig drwy'r gweithgaredd datblygu sgiliau a thalentau a thrwy

uchelgeisiau Cymru Greadigol i adeiladu ar dîm mwy amrywiol. Bydd yr ymrwymiad parhaus hwn yn darparu cyfleoedd i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau sydd wedi'u dwysau gan yr argyfwng costau byw diweddar, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rhywedd ac anabledd. Bydd hefyd yn cyfrannu at weithredu gan Lywodraeth Cymru gyfan i gefnogi'r agenda hon, gan gynnwys drwy ein cyfraniad i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Bydd yn rhoi cymorth i ddatblygu sgiliau, codi safonau, a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector, yn gweithio i gael gwared ar rwystrau i fynediad, ac yn cynyddu cyfleoedd i weithio yn y sector, yn symleiddio mecanweithiau ariannu ac yn cymryd rôl arweiniol wrth farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd.

Mae hefyd yn cynnwys gwneud y mwyaf o gyfleoedd i hybu'r Gymraeg fel rhan o'r cyfraniad at *Cymraeg 2050,* uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth gyflawni'r cynllun, bydd Cymru Greadigol yn gweithredu i gefnogi sector diwydiannau creadigol cynaliadwy yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd yr agenda hon mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac i sicrhau y gall busnesau weithredu'n effeithiol yn unol â disgwyliadau'r farchnad.

Mae Cymru Greadigol yn bwriadu adeiladu ar ei dull cydweithredol o ddatblygu a chyflawni polisi yn unol â ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cynllun Busnes yn cyflawni yn erbyn nifer o nodau llesiant, gan gynnwys 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ymyriadau yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau **hirdymor** i'r sector, a byddant yn canolbwyntio ar atal**,** er mwyn sicrhau nad yw heriau'n effeithio'n negyddol ar ddyfodol y sector yng Nghymru. Bydd **integreiddio** a **chydweithio** yn hanfodol os yw Cymru Greadigol am gyflawni'r canlyniadau a ddymunir a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol â rhanddeiliaid i gydgysylltu gweithgarwch a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y cyd.

Bydd Cymru Greadigol yn pennu ymateb y sector creadigol i'r agenda **gwaith teg** ac yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ar unrhyw weithredu yn y dyfodol o safbwynt gwaith teg i'r sector diwydiannau creadigol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid yr undeb a'r diwydiant i arwain newid diwylliannol wrth wneud y diwydiant yn decach ac yn un lle mae iechyd meddwl a lles yn cael ei werthfawrogi.
Bydd y cynllun yn nodi cyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi **cynaliadwyedd** yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu i godi ymwybyddiaeth o arferion da a chyfleoedd i wreiddio a hyrwyddo gweithredu cadarnhaol drwy ein cyllid cynhyrchu.

Bydd yn mabwysiadu dull **Cymru gyfan** gan barhau i gefnogi ein partneriaid rhanbarthol i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu nodi i dyfu'r diwydiannau creadigol mewn ffordd gytbwys, gan gynnwys yng ngogledd, gorllewin a chanolbarth Cymru. Byddwn yn cefnogi ymyriadau ledled Cymru a byddwn yn sicrhau y gall cwmnïau rhanbarthol elwa o lefel uwch o ymgysylltu a chefnogaeth gan Cymru Greadigol.

Cymru Greadigol

Er i Gymru Greadigol gael ei lansio yn 2020 fel asiantaeth fewnol, mae'n gweithredu o fewn Llywodraeth Cymru fel adran ac nid oes ganddo hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i Weinidogion Cymru. Felly mae'r ffordd y mae ei swyddogion yn trafod yn cael ei rheoli'n bennaf gan ofyniad cyffredinol i beidio ag amharu ar neu benderfynu ymlaen llaw ar benderfyniad terfynol Gweinidogion Cymru ar unrhyw fater o fewn eu hawdurdodaeth. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan swyddogion yr awdurdod i ymarfer eu swyddogaethau yn gyffredinol ar ran, ac yn enw Gweinidogion Cymru (Egwyddor Carltona). Fodd bynnag, bydd achosion sy'n cael eu hystyried yn wahanol, yn ddadleuol, yn sensitif yn wleidyddol neu'n debygol o dynnu sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru i'w penderfynu.

Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol
Yn debyg i gyrff hyd braich, penododd Cymru Greadigol Fwrdd cynghori anweithredol gyda Chadeirydd ac Aelodau allanol a gafodd eu recriwtio drwy broses agored yn 2020. Yn 2023, edrychwyd ar ddeiliadaeth saith aelod gwreiddiol y Bwrdd ac o ganlyniad, hysbysebwyd nifer o swyddi gwag yn haf 2024 ar gyfer deiliadaeth tair blynedd.

Ym mis Gorffennaf 2024, recriwtiwyd pum aelod newydd i fwrdd Cymru Greadigol. Roedd y panel recriwtio o'r farn y byddai'r pum ymgeisydd ar y rhestr fer yn dod â phrofiad ac arbenigedd sylweddol i'n meysydd blaenoriaeth ac felly byddent yn cynnig mewnwelediad amhrisiadwy ar gyfer pennu cyfeiriad y bwrdd.

Argymhellodd y panel recriwtio hefyd, er gwaethaf safon uchel ceisiadau a phrofiad y pum ymgeisydd ar y rhestr fer, bod angen ceisio rôl arbenigol ychwanegol gyda phrofiad mewn hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod amrywiaeth o brofiadau a dealltwriaeth ar y Bwrdd.

Ers yr ymarfer recriwtio hwn, gwnaeth y Cadeirydd a gafodd ei ailbenodi am ail dymor yn 2023, ymddiswyddo o'i rôl er mwyn ymgymryd â swydd uwch yn y sector. Mae aelod presennol wedi cytuno i weithredu fel Cadeirydd dros dro am gyfnod tymor byr nes bod Cadeirydd parhaol yn cael ei recriwtio.

Rôl y Bwrdd Anweithredol
Mae Bwrdd Cymru Greadigol yn anweithredol a chynghorol. Mae'n gwneud argymhellion i Weinidogion a swyddogion ond nid oes ganddo ei hun unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau. Ni fydd y gweision sifil sy'n gweithio gyda'r Bwrdd, ac yn derbyn eu cyngor, yn atebol i'r Bwrdd mewn unrhyw ffordd. Bydd y trywydd atebolrwydd arferol o fewn y gwasanaeth sifil drwy reolwyr llinell i Weinidogion, ac ystyried swyddi y Prif Swyddogion Cyfrifo a'r Swyddogion Ychwanegol, yn berthnasol.

Rôl y Bwrdd yw:

- rhoi arweiniad effeithiol, gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion sy'n cynnig her;
- craffu ar safonau cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- craffu ar weithgareddau yr asiantaeth fewnol er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cynnal yn effeithiol ac effeithlon;

- monitro perfformiad gan gynnwys perfformiad ariannol, i sicrhau bod yr asiantaeth fewnol yn bodloni ei nodau, ei hamcanion a'i thargedau perfformiad;
- rhoi cyngor a datblygu amcanion a nodau strategol Cymru Greadigol sy'n gyson â'i bwrpas cyffredinol ac o fewn fframwaith polisi ac adnoddau sy'n cael ei benderfynu gan y Gweinidog;
- craffu ar y cynllun busnes a'r gyllideb;
- craffu ar y prosesau busnes a gynlluniwyd yn benodol i fodloni anghenion busnes Cymru Greadigol;
- ystyried a rhoi cyngor ar gysylltiadau â'r diwydiant, rhwydweithio, marchnata a strategaethau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun busnes a chyfeiriad strategol yr asiantaeth fewnol.

Oherwydd natur y busnesau a'r unigolion yn y sector a'r angen am yr hyn sy'n cael ei ystyried fel mathau ansafonol o gefnogaeth, bydd sicrhau rheolaethau llywodraethu a dulliau rheoli perfformiad cywir yn flaenoriaeth amlwg. Wrth wario arian cyhoeddus, bydd angen trefnu dulliau rheoli, craffu a monitro priodol.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys:

- Cadeirydd Anweithredol interim (allanol)
- Aelodau Anweithredol (dau aelod allanol tan 2026)
- Aelodau Anweithredol (recriwtiwyd pump allanol yn 2024 tan 2027)
- Cyfarwyddwr, Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Chreadigol (Llywodraeth Cymru)
- Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymru Greadigol (Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod drwy gyfarfodydd hybrid ac wyneb yn wyneb bob dau i dri mis ledled Cymru.

Bydd angen i'r ymgeisydd ar gyfer y ddau le gwag ar y Bwrdd (caderiydd anweithredol ac aelod anweithredol) ddangos tystiolaeth o brofiad cyfredol yn y sector, gan gynnwys ymwneud ac arweiniad bywiog, a fyddai'n rhoi mewnbwn amhrisiadwy i'r Bwrdd.

Atodiad C

Y broses ddethol

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Gofalwch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol. Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd interim Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol a bydd hefyd yn cynnwys Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol, a Geraint Evans fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel dethol i'w ystyried. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.
Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Gorffennaf 2025 pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad ym mis Medi 2025. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau drwy Microsoft Teams / wyneb yn wyneb (os wyneb yn wyneb, yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd).
Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf sydd i'w gweld ym manyleb y person a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni **meini prawf hanfodol** y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, gwnawn bob ymdrech i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Cewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi os ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a’ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyf-weld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf o ran hynt y broses honno.
Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi’n Gadeirydd Bwrdd Cymru Greadigol, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau ar ba delerau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch wybod drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod ymgeisio am rolau yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, ac felly bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn nodi â phwy y gallwch gysylltu i gael adborth ar eich cais a'ch cyfweliad, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os na fyddwch yn gwbl fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu pob cais mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn deg ac yn gwrtais. Os bydd gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, anfonwch e-bost at penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:
Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: **Office of the Commissioner for Public Appointments,** Ground Floor, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ, neu e-bostio publicappointments@csc.gov.uk